

Pechaduriaid truenus

“Y mae’r Arglwydd yn dda ac uniawn, am hynny fe ddysg y ffordd i bechaduriaid.” (adn. 8)

Beth am ddarlenn Salm 25:1–22 ac yna myfyrio

Yr ydym wedi bod yn edrych ar y problemau hynny sy’n cael eu hachosi gan eglwysi lle mae’r ffaith o bechod yn rhywbeth nad ydynt yn ei dderbyn, ond mae’n broblem hefyd yn yr eglwysi sydd yn derbyn realiti pechod, ond ar yr un pryd yn methu gweithredu mewn ffordd sy’n sensitif wrth gyflwyno hynny i’w cynulleidfaoedd. Byddaf yn meddwl yn aml am y gwasanaethau y bu i mi eu mynychu pan oeddwn yn fachgen ifanc. Deuai pregethwyr a fyddai’n pwysu dros ochr y pulpud, a chyd wynebaw coch yn gweiddi ar y cynulleidfaoedd: “Y pechaduriaid truenus â chi.. mae Duw wedi ei wylltio... mynnwch gael eich achub cyn i chi fynd i uffern.” Roedd fy frindiau, fel fi, yn ystyried pregethwyr fel hyn yn rhai oedd braidd wedi gwallgofi!

Un noson, daeth pregethwr i’n heglwys, ac yn ystod ei bregeth, fe ddangosodd i ni mewn ffordd gariadlon a gofalus nad yw Duw yn ein herbyn oherwydd ein pechod, ond o’n plaid oherwydd ein pechod. Bu i’r ymadrodd hwnnw (un yr wyf wedi ei ddefnyddio yn gyson yn fy ngweinidogaeth fy hunan) dynnu i lawr yr amddiffynfeydd yr oeddwn wedi eu codi, gan ganiatáu i Grist ddod at fy nghalon. Esboniodd petawn yn cyffesu fy ngwrthryfel, petawn yn cydnabod nad oeddwn wedi caniatáu i’r Gwardwr ddod i mewn i’m calon, a gofyn iddo am ei faddeuant am y blynyddoedd lawer y bu i mi wrthryfela, yna y maddeuid fy mhechod ac y byddai Crist yn dod i mewn i’m bywyd. Fe wnes yr hyn a ddywedodd y pregethwr, a bu i mi brofi’r gwirionedd bendigedig sydd i’w weld yng ngeiriau’r emyn cyfarwydd:

i’r pennaf droseddwr yr Iesu a rydd

lawn bardwn pan ddaw at ei Arglwydd mewn ffydd.

Fe gymerodd lai o amser nag a gymerodd i E. H. Griffiths gyfieithu’r emyn yma i’m pechod gael ei faddau, ac i’r Arglwydd Iesu Grist gerdded i mewn i’m bywyd, gan beri i’m henaid ganu weddill fy mlynyddoedd.

Credaf i’r pregethwr gymryd ei arweiniad y noson honno o’r testun sydd gerbron heddiw gan fy nghyfarwyddo fi – y pechadur – mewn ffordd gariadlon ac mewn ffordd gywir yn ffyrdd yr Arglwydd.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Jer. 31:16–21; 31:33–34; Luc 23:39–43

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw sail ein gobaith ar gyfer y dyfodol?
2. Beth yw neges y Beibl i bechaduriaid?

Gweddi

O Dduw, rwy’n gweddiö unwaith eto y bydd i ti roi i bregethwyr ac efengylwyr y sensitifwydd yna wrth gyflwyno’r Efengyl i bechaduriaid. Cynorthwya hwy i ddeall mai dyma dy ddaioni di, y daioni o’i ddatguddio sy’n arwain i edifeirwch. Rwy’n gofyn hyn yn enw Iesu. Amen.